Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
HYDREF 2007

DYDDIAD	Nos Fercher, 17eg Hydref, 2007
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd LLANWNDA
AELODAU'N BRESENNOL	Jason Hunt, Emrys Jones, Elwyn Jones, Meurig Williams, Huw Williams, Jane Eryl Jones, Neal Williams
HEFYD YN BRESENNOL	Cyng.Glyn Owen, Bethan Williams, clerc.

1. **Ymddiheuriadau**
Gwilym V.Thomas, Gwilym L.Williams, Elin Evans, Nerys Evans

2. **Croeso**
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan yr is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd.

3. **Datgan Buddiant**

4. **Cadarnhau cofnodion**
Cadarnhwyd cofnodion mis Medi fel rhai cywir.

5. Materion i'w trafod:
   a) Materion diogelwch ffyrdd yn Rhostryfan – adroddodd ElJ ei fod wedi cyfarfod â Adrian Williams yn y pentref i drafod problemau gor-yrru. Soniwyd nad oedd yn addas i gael culhau'r ffordd ger Talybont ond mae stribedi wedi'u gosod ynghanol Rhostryfan i fonitro gor-yrru dros yr wythnosau nesaf. Gwnaethpwyd sylw y byddai'n syniad i gael cerbyd 'Arrive Alive' yn y pentref. Clerc i wneud ymholiadau.
   b) Derbyniwyd ohebiaeth gan D.W.Williams, Adran Gynllunio a Thrafnidiaeth Cyngor Gwynedd yn nodi fod bwriad i gadw golwg ar y ffordd ger y gornel yn Ffrwd Cae Du am y chwe mis nesaf i asesu'r sefyllfa yn dilyn gweithredu'r camau gwreiddiol, megis gosod stribedi ac ati.
   c) Cynllun Uwchgwyrfai – wedi derbyn llythyr gan Alun Ffred Jones AC yn nodi fod bwriad ganddo i geisio cael cyfarfod safle gyda swyddogion WEFO. Angen i ni drefnu cyfarfod ar y cyd â Chyngor Cymuned Llandwrog i drafod y mater ymhellach.
   d) Heddlu – nodwyd fod presenoldeb yr heddlu yn y pentrefi wedi gwella, a bod angen cadw golwg ar y sefyllfa.
   e) Cafwyd llythyr gan berchennog siop Gwyled Rhostryfan yn gofyn am gymorth tuag at ddiogelu'r siop. Clerc wedi checio'r rheolau ac yn anffodus, nid yw'n bosib rhoi arian ar gyfer unigolion neu fusnesau.
   f) Safloedd parcio ger 3 a 4 Bro Wyled. Clerc wedi gwneud cais eto i gael gwneud safleoedd parcio pwrpasol. Heb gael ymateb hyd yma. Nododd y Cyng.Glyn Owen fod y mater yn derbyn sylw gan yr Adran Briffyrdd a'r Adran Dai.
   g) Bwriedir cynnal noson i lawnsio safle We'r Cyngor yng Nghanolfan

Cae'r Gors am 7p.m. nos Fercher, 24ain o Hydref.

h) Clerc wedi derbyn cwynion ynglyn a choed yn gor-dyfu yn rhifau 5 a 6 tai Bro Cadfan. Angen cysylltu a Chyngor Gwynedd i roi gwybod.
i) Cwyn ynglyn â polyn BT ynghanol pentref Rhos Isaf sydd yn creu problemau ar gyfer bysiau ac ati. Clerc i gysylltu â Adran Briffyrdd Gwynedd, gan mai nhw sydd berchen y tir.
j) Budreddi yn y cae chwarae ger Ysgol Rhostryfan. Clerc i ofyn i Wyn Williams lanhau'r parc unwaith y mis. Byddai hyn hefyd yn gyfle da i checio diogelwch yr adnoddau chwarae.
k) Llythyr gan James A.Williams, Mynwent Hermon yn nodi ei fwriad i ymddiswyddo ac i ofyn os byddai'r cyngor yn fodlon cymryd gofal dros y fynwent. Aelodau yn awyddus i gael gwybod yn union beth fyddai oblygiadau hyn. Clerc i checio efo Un Llais Cymru i gael arweiniad.
l) Safle cofeb Kate Roberts, Lôn Wen wedi'i glirio o'r diwedd.
m) Lês Lein Bryngwyn – ElJ a clerc wedi cyfarfod a Wyn Williams, ac wedi derbyn lês ddrafft ar gyfer y rhan uchaf o'r lein, h.y. rhwng Rhostryfan a Bryngwyn. Trio pwyso ar Gyngor Gwynedd i geisio cael 'access agreement' ar weddill y lein, rhwng Rhostryfan a Tryfan Junction.
n) MW – dwr ar y ffordd yn sgwâr Penyffridd – nodwyd fod y gwaith yma eisoes wedi'i wneud. Nododd y clerc fod lleoliadau eraill efo dwr ar y wyneb ac angen sylw megis: Penyceunant, rhwng Maen Brith a Trem Werydd ac ar allt Penygwylwyr. Clerc i gysylltu a'r awdurdodau.
o) ELJ – twll yn y ffordd ger Wernlas Ddu – gwaith yma wedi'i wneud.

6. **Derbyn Adroddiadau:**
Adroddodd JH ei fod wedi darllen adroddiad blynyddol yr heddlu. Dim byd mawr i'w adrodd yn ôl.

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	25,716.21
Cyfri Siec:	138.72
CYFANSWM	25,854.93

Cyflog/costau clerc – mis Hydref	386.57
Cyllid y Wlad	94.93
Owain Searell – safle we	664.67
Wyn Williams	1074.00
Ceisiadau am nawdd:	
Ambiwlans Awyr	200.00
Tîm Ieuenctid Mountain Rangers	250.00
Cymdeithas Lenyddol Rhos Isaf	50.00
GWEDDILL	23,134.76

Materion Cynllunio
Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO7A/0671/24/LL – Waen Bant, Rhostryfan – dymchwel adeiladau allanol ac adeiladu estyniad
CO7A/0669/24/LL – Tan yr Ardd, Rhostryfan – estyniad deulawr
CO7A/0711/24/LL – ty ger Tai Gwel y Don, Llanwnda

Gwrthwynebu'r canlynol ar sail gor-ddatblygu. Byddai'r aelodau'n ffafio dau dy,ond yn teimlo fod tri yn ormod ar gyfer y safle:
CO7A/0658/24/LL – Trem Arfon, Rhosgadfan – trosi, addasu ac ymestyn ty i ffurfio 3 ty a mannu parcio

Eisoes wedi'u caniatau:
2 Uwch Menai, Saron – estyniad
Berwyn, Ffrwd Cae Du – estyniad
Ty Capel, Saron – estyniad

Gohebiaeth:

a) Llythyr gan Gyngor Cymuned Bontnewydd yn holi am drefniadau gyda llwybrau.
b) SLCC – cangen leol wedi'i ffurfio
c) Sticeri car Gwefan Dyffryn Nantlle
d) Asiantaeth yr Amgylchedd – Cais i ollwng elifiant masnachol
e) Cynulliad – Cynigion ar fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru
f) Cangen Bontnewydd Plaid Cymru - rhestr digwyddiadau
g) Cyngor Gwynedd – adolygiad o Bolisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd
h) Llythyr gan Janet Ryder, Cynulliad Cymru yn gofyn am farn y cyngor ar Dai Fforddiadwy yn yr ardal. Nodi nad oes fawr o ddatblygiadau yn yr ardal yma eto, ac felly nid oes gennym unrhyw sylwadau ar hyn o bryd.
i) Brigau coed yn dod drosodd i'r ffordd rhwng Bryn Bethel a Penygroeslon. Clerc i gysylltu a'r Cyngor Sir.

9. **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf**:

a) Angen trefnu fod y gangiau cymunedol yn dod i dorri'r eithin ac ati yn y pentrefi.
b) MW – angen pwyso eto fod chwe toriad gwrychoedd yn digwydd yn flynyddol.
c) Cwynion eto ynglyn â pobl yn parcio o flaen y gysgodfan fysiau yn Penyffridd.
d) ElJ – angen gofyn wrth gwmni Rheilffordd Eryri dorri'r gwrychoedd ger Dolellog ac ar y bont ger Wernlas Ddu.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.55p.m.